

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATEGOL  
(MEMORANDWM RHIF 2)**

**Bil Amaethyddiaeth**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru neu'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Rhoddwyd y Bil Amaethyddiaeth (Y Bil) ger bron Tŷ'r Cyffredin ar 16 Ionawr 2020 ac y mae erbyn hyn wedi cwblhau cam y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus. Mae'r Memorandwm hwn yn nodi'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil yng nghamau'r Pwyllgor Biliau Cyhoeddus ac Adrodd Tŷ'r Cyffredin gan ddiweddarau'r sefyllfa o ran y cymalau ar adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32) a chynnyrch organig (cymalau 36 a 37). Ceir fersiwn ddiweddaraf y Bil, fel y'i diwygiwyd yng ngham yr Adroddiad, yn:

<https://publications.parliament.uk/pa/bills/lbill/58-01/112/5801112.pdf>

3. Cwblhaodd y Bil ei daith trwy Dŷ'r Cyffredin ar 13 Mai ac aiff ger bron Tŷ'r Arglwyddi ar ddyddiad i'w gadarnhau.

**Amcan(ion) Polisi**

4. Amcanion polisi datganedig Llywodraeth y DU yw darparu, ar gyfer Lloegr, system newydd o dalu ffermwyr yn seiliedig ar yr egwyddor o "arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus" ar gyfer y genhedlaeth nesaf o ffermwyr a rheolwyr tir.
5. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys mesurau i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i sicrhau bod y sector amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd (UE). Yn benodol, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i alluogi taliadau i barhau i gael eu gwneud i ffermwyr gyda phwerau i newid Taliadau Uniongyrchol a Datblygu Gwledig, er enghraifft, ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol pan geir amodau eithriadol yn y farchnad.

**Crynodeb o'r Bil**

6. Noddir y Bil gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
7. Y Bil sy'n rhoi'r sail gyfreithiol, yn Lloegr, i symud oddi wrth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a sefydlu cynlluniau cymorth ariannol newydd yn seiliedig ar egwyddor arian cyhoeddus am nwyddau cyhoeddus.

8. Mae'r Bil yn rhoi pwerau hefyd, fel y nodir uchod, i alluogi parhad y cymorth amaethyddol presennol ac i ymyrryd mewn marchnadoedd amaethyddol pan geir amodau eithriadol yn y farchnad, a cheir darpariaethau ynddo hefyd ar gyfer casglu a rhannu data ac am safonau marchnata a chategoreiddio carcasau. Pan ofynnir amdanynt gan Lywodraeth Cymru, bydd y pwerau hyn ar gael i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru o dan ddarpariaethau Atodlen 5 y Bil. Mae cyfyngiad amser ar ddarpariaethau Atodlen 5 (a rhai darpariaethau perthynol). Byddant yn dod i ben ddiwedd 2024 yn unol â'r ddarpariaeth yng nghymal 44 (hyd y ddarpariaeth yng Nghymru). Esbonnir hyn ym mharagraffau 57 a 58 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a gyflwynwyd ar 12 Chwefror.
9. Ceir yn y Bil hefyd ddarpariaethau sy'n gymwys i Gymru ar gynnyrch organig; adnabod ac olrhain anifeiliaid; sefydliadau sy'n delio'n deg a sefydliadau cynhyrchwyr; materion yn ymwneud â ffermio a chefn gwlad, gan gynnwys ailddosbarthu'r ardoll cig coch a diwygio tenantiaethau amaethyddol; gofyniad i'r Ysgrifennydd Gwladol gyflwyno adroddiad i Senedd y DU ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd; a phwerau gwneud rheoliadau i'r Ysgrifennydd Gwladol er mwyn sicrhau bod y DU yn cydymffurfio â chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Nid yw'r ddarpariaeth dod i ben (cymal 44) yn effeithio arnynt.
10. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Amaethyddol (a gyflwynwyd ar 16 Ionawr 2020) ar 12 Chwefror. Nododd bryderon ynghylch y darpariaethau yn y Bil ar adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32) a rheoleiddio cynnyrch organig (cymalau 36 a 37). Sail y pryderon hyn yw diffyg darpariaeth addas o ran gofyn am gydsyniad Gweinidogion Cymru pan fydd yr Ysgrifennydd Gwladol, o dan rai amgylchiadau, yn arfer pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth o dan y darpariaethau hyn. Mae gwaith da wedi'i wneud i leddfu'r pryderon hyn ac os gellir cytuno ar ddiwygiadau, caiff Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ategol ei ddwyn ger bron pan fydd yr amser yn briodol.
11. Nododd Llywodraeth Cymru ei phryder hefyd ynghylch Tenantiaethau Amaethyddol (Atodlen 3). Mae'r pryder hwn yn ymwneud ag atgyfeirio ceisiadau am ganiatâd landlordiaid sy'n destun anghydfod neu i newid amodau cymrodeddu neu ar gyfer eu hystyried gan drydydd parti. Mae ceisiadau y gellir eu hatgyfeirio yn cynnwys ceisiadau gan denantiaid i wneud cais am gymorth ariannol o dan Ran 1 y Bil Amaethyddol. Bydd Senedd Cymru'n ystyried a oes angen darpariaeth debyg mewn Bil yn y dyfodol mewn cysylltiad â chynlluniau cymorth ariannol yng Nghymru.

### **Darpariaethau ategol yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

12. Ers cyhoeddi'r Memorandwm cyntaf, cafodd y Bil ei ddiwygio pan fu'n destun craffu yn Nhŷ'r Cyffredin.
13. Mae'r Memorandwm Ategol yn nodi'r newidiadau hynny a wnaed i'r Bil yng ngham Pwyllgor ac Adrodd Tŷ'r Cyffredin y bydd angen cydsyniad Senedd Cymru arnynt. Rhaid ystyried y Memorandwm cyntaf ac ategol gyda'i gilydd

(ynghyd ag unrhyw Femorandwm Ategol arall a gyflwynir ger bron Senedd Cymru i ymdrin ag unrhyw ddiwygiadau yn y dyfodol) wrth benderfynu p'un ai i roi cydsyniad neu beidio.

14. Mae angen cydsyniad ar gyfer y diwygiadau canlynol i ddarpariaethau'r Bil gan eu bod yn ymdrin â materion datganoledig. Mae rhifau'r cymalau yn perthyn i fersiwn y Bil yr archebwyd ei argraffu ar 18 Mai 2020 (y fersiwn a ddiwygiwyd yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin).

**Cymal 31: (Gwrteithiau), Cymal 37: (Cynnyrch Organig: ategol), Cymal 47: (Rheoliadau), Cymal 48 (Dehongli) Atodlen 3, Rhan 1: (Diwygiadau i Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986)) ac Atodlen 5, Rhan 2, paragraff 6: (Datganiad am amodau eithriadol yn y farchnad)**

15. Mae Rhan 2 o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 ("Deddf 2020") yn newid enw Cynulliad Cenedlaethol Cymru i 'Senedd Cymru' neu 'Welsh Parliament' o 6 Mai 2020. Mae'r Bil yn cyfeirio at Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac at Fesurau a Deddfau Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gan na chaiff y Bil ei gydsyniad brenhinol tan ar ôl 6 Mai, mae'r cyfeiriadau hyn wedi'u newid i gyfeirio at Senedd Cymru neu'r Senedd, i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan Ran 2 Deddf 2020. Mae diwygiadau priodol wedi'u gwneud i gymalau 31, 37, 47 a 48 ac Atodlenni 3 a 5.
16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei chydsyniad ar y diwygiadau hyn am eu bod yn ymwneud â mater datganoledig. Mae'r diwygiadau'n ymdrin â'r newid yn yr enw a wnaed yn Neddf 2020. Pwrpas hynny oedd gwella hygyrchedd a threfniadau gweithredol y ddeddfwrfa yng Nghymru, yn yr achos hwn trwy adlewyrchu'n well esblygiad statws cyfansoddiadol y ddeddfwrfa.

**Cymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid)**

17. Diwygir Cymal 32(2) fel bod y diwygiad y mae'n effeithio arno yn Neddf Iechyd Anifeiliaid 1981 ("Deddf 1981") yn gymwys i Gymru. O ganlyniad, yn adran 8(1)(a) Deddf 1981, dilëir y term "marcio anifeiliaid" a rhoddir "ffordd o adnabod anifeiliaid" yn ei le. Gall darpariaeth a wneir o dan is-adran (1)(a) gan Weinidogion Cymru rwyngu'r Goron. Bydd y diwygiad hwn yn caniatáu i is-ddeddfwriaeth a wneir o dan bwerau a geir yn Neddf 1981 adlewyrchu datblygiadau newydd ym maes technoleg a methodoleg adnabod anifeiliaid, er enghraifft, defnyddio tagiau electronig. Cyn hyn, roedd y diwygiad yn effeithio ar Loegr yn unig.
18. Diwygir Cymal 32(3) er mwyn datgymhwyso Teitl 1 o Reoliad 1760/2000 ("1760/2000") (EC) yng Nghymru. Mae'n ymwneud ag adnabod a chofrestru gwartheg. Diwygir Cymal 32(3) ymhellach i ddatgymhwyso darpariaethau perthynol yn Nheitl III (darpariaethau cyffredin) 1760/2000 mewn cysylltiad â Chymru neu Loegr. Darpariaethau cydymffurfio yw'r rhain. Diwygir Cymal 32(4) i ddatgymhwyso Rheoliad 21/2004 ("21/2004") yng Nghymru. Mae hwn yn ymwneud ag adnabod a chofrestru defaid a geifr. Mae diwygiadau canlyniadol wedi'u gwneud i gymal 53(3)(a)(i) (sy'n darparu y daw'r darpariaethau hyn i rym ar ba ddiwrnod bynnag y gwêl Gweinidogion Cymru

yn dda trwy reoliadau a wneir trwy offeryn statudol). Yn wreiddiol, roedd cymalau 32(3) a (4) yn darparu ar gyfer Lloegr yn unig.

19. Mae'r diwygiadau hyn yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru ddileu darpariaethau 1760/2000 a 21/2004 a rhoi gorchymyn yn eu lle o dan bwerau a geir yn Neddf 1981 heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol arall. Bryd hynny, bydd Gweinidogion Cymru'n datgymhwyso 1760/2000 a 21/2004 trwy gychwyn is-adrannau (3) a (4). Cyn hynny, cyfyngwyd y pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau 1760/2000 a 21/2004 i Loegr yn unig.
20. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei chydsyniad ar gyfer y diwygiadau hyn gan eu bod yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â materion datganoledig fel y byddant yn gymwys i Gymru, gan gynnwys amaethyddiaeth ac iechyd anifeiliaid.

### **Atodlen 5, Rhan 1: Cymorth Ariannol ar gyfer yr Undeb Ewropeaidd**

*Paragraff 2 (pŵer i addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol)*

21. Mae Paragraff 2(10) o Atodlen 5 yn rhoi pwerau trwy reoliadau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol fel y caiff ei weithredu yng Nghymru. Yn y gwreiddiol, roedd y pwerau ar gael i "symleiddio neu wella" y cynllun. Maent nawr wedi'u diwygio fel bod y ddarpariaeth yn nodi pum pwrpas y ceir addasu'r ddeddfwriaeth i'w cyflawni, sef:
  - (a) symleiddio'r ffordd y gweinyddir y cynllun neu i'w wneud yn fwy effeithiol neu effeithlon;
  - (b) dileu darpariaethau sydd wedi bwrw eu hamser neu nad ydynt bellach o unrhyw ddiben ymarferol;
  - (c) dileu neu leihau beichiau, neu'r baich cyffredinol, ar bobl sy'n gwneud cais am daliadau uniongyrchol neu'n eu hawlio o dan y cynllun, neu wella'r ffordd y mae'r cynllun yn cael ei weithredu mewn perthynas â nhw;
  - (d) sicrhau bod unrhyw sancsiwn neu gosb a roddir o dan y cynllun yn briodol ac yn gymesur;
  - (e) cyfyngu'r cynllun i dir yng Nghymru yn unig.
22. Mae paragraff 2(2) yn esbonio bod Gweinidogion Cymru'n cael dod â'r taliadau gwyrddu i ben gan ddefnyddio'r pwerau sydd ar gael iddynt o dan baragraff 2(1). Diwygir paragraff 2(2) er mwyn esbonio na cheir defnyddio'r ddarpariaeth i ddod â'r taliadau gwyrddu i ben os bydd y ddarpariaeth yn lleihau swm y taliad uniongyrchol y byddai person wedi bod â hawl iddo pe na bai'r ddarpariaeth wedi'i gwneud
23. Mewn osodir paragraff newydd 2(3) i ddiffinio "baich" (fel y'i defnyddir ym mharagraff 2(1)(c)) i gynnwys cost ariannol, anghyfleustra gweinyddol neu rwystr i effeithiolrwydd, cynhyrchiant neu broffidioldeb.

*Paragraff 4 (Cymorth ariannol arall: addasu darpariaeth gyffredinol sy'n gysylltiedig â thaliadau i ffermwyr a buddiolwyr eraill yng Nghymru)*

24. Mae paragraff 4(1) o Atodlen 5 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru addasu, trwy reoliadau, ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Yn y gwreiddiol, roedd Gweinidogion Cymru yn cael gwneud rheoliadau at ddiben dod ag effaith unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth honno i ben yng Nghymru, neu symleiddio neu wella gweithrediad y ddeddfwriaeth mewn perthynas â Chymru.
25. Diwygir paragraffau 4(1) a (2) er mwyn i Weinidogion Cymru allu gwneud rheoliadau i addasu'r ddeddfwriaeth honno, fel y bydd yn cael ei gweithredu mewn cysylltiad â Chymru, at un neu fwy o ddibenion penodol. Sef:
- (a) dod ag effaith unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth i ben;
  - (b) symleiddio gweithrediad unrhyw ddarpariaeth yn y ddeddfwriaeth honno, neu ei gwneud yn fwy effeithiol neu effeithlon;
  - (c) dileu neu leihau beichiau, neu'r baich cyffredinol, a roddir gan y ddeddfwriaeth ar bobl sy'n gwneud cais neu sy'n derbyn taliadau a lywodraethir gan y ddeddfwriaeth, neu wella'r ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei gweithredu mewn perthynas â'r bobl hynny;
  - (d) sicrhau bod unrhyw sancsiwn neu gosb a roddir o dan y ddeddfwriaeth yn briodol ac yn gymesur.

Ceir yn is-baragraff (3) restr anghyflawn o "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin". Diwygir y rhestr honno i gynnwys "rheoliadau etifeddol" a ddiffinnir yn is-baragraff (4). Diwygir is-baragraff (3) hefyd i ddiffinio "baich", a ddefnyddir ym mharagraff 4(2)(c), er mwyn iddo gynnwys cost ariannol, anghyfleustra gweinyddol neu rwystr i effeithiolrwydd, cynhyrchiant neu broffidioldeb.

*Paragraff 5 (Cefnogaeth i ddatblygu gwledig: addasu deddfwriaeth mewn cysylltiad â Chymru)*

26. Mae paragraff 5 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i addasu "deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chefnogaeth i ddatblygu gwledig" (fel y'i disgrifir ym mharagraff 5(2)) ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno. Yn ôl y drafft gwreiddiol, defnyddid y pwerau hyn naill ai i ddod ag effaith ambell ddeddfwriaeth ar Gymru i ben neu i symleiddio neu wella gweithrediad y ddeddfwriaeth honno (wrth aros i'w heffaith ddod i ben). Diwygir y ddarpariaeth er mwyn estyn y pwerau gwneud rheoliadau hyn trwy ddiddymu'r cyfyngiadau hyn, fel y gellid addasu'r ddeddfwriaeth hon o ran ei heffaith ar Gymru. Diben defnyddio'r cymal hwn yw estyn cynlluniau a phrosiectau y tu hwnt i Raglen Datblygu Gwledig bresennol 2014-2020 neu gynnal cynllun Cymreig domestig cyfatebol. Bydd y pwerau gwneud rheoliadau yn cael eu diwygio i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol yn hytrach na'r weithdrefn negyddol.

27. Daw'r pwerau ym mharagraffau 2, 4 a 5 o Atodlen 5 o dan y cymal machlud (cymal 44) o hyd gan ddod i ben ddiwedd 2024 (gyda gweddill Atodlen 5 a rhai darpariaethau eraill a esbennir ym mharagraffau 57 a 58 y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaeth a osodwyd ar 12 Chwefror).
28. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen ei chydsyniad ar gyfer y diwygiadau i baragraffau 2, 4 a 5 o Atodlen 5 gan eu bod yn darparu ar gyfer amaethyddiaeth, pwnc datganoledig.

### **Pwerau i greu is-ddeddfwriaeth**

29. Mae'r Atodiad yn disgrifio rhestr o'r pwerau gwneud is-ddeddfwriaeth a roddir i Weinidogion Cymru. Mae wedi'i diweddarau ychydig ers y Memorandwm a osodwyd ar 12 Chwefror er mwyn ystyried y diwygiadau a wnaed yng nghamau Pwyllgor ac Adrodd Tŷ'r Cyffredin ac a ddisgrifir yn y Memorandwm hwn. Diffinnir 'Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol' yng nghymal 47(6)(c) a 'gweithdrefn penderfyniad negyddol' yng nghymal 47(7)(c) y Bil fel y cymhwysir y termau hynny i is-ddeddfwriaeth a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan y Bil.

### **Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Amaethyddiaeth**

30. Fel a ddisgrifir yn y Memorandwm cyntaf, bwriad Llywodraeth Cymru o hyd yw cyhoeddi Papur Gwyn ar Amaethyddiaeth cyn diwedd tymor y Senedd hon a fydd yn adeiladu ar y cynigion a amlinellir yn yr ymgynghoriad Ffermio Cynaliadwy a'n Tir ac yn gosod y sylfeini ar gyfer cyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn nhymor y Senedd nesaf. Mae manylion y cynllun newydd yn dibynnu ar ganlyniad penderfyniadau polisi a gweithredol na ellir eu gwneud nes bod dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriadau a'r Papur Gwyn wedi'i gwblhau a bod yr holl ffactorau perthnasol wedi'u hystyried.
31. Bydd gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil Amaethyddiaeth y DU yn golygu y bydd modd parhau i ddarparu'r cymorthdaliadau amaethyddol presennol ar ôl 2020, a sicrhau bod marchnadoedd amaethyddol yn gweithredu'n effeithiol ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

### **Safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil fel y'i diwygiwyd**

32. Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon â'r diwygiadau a gyflwynwyd gan Weinidogion Llywodraeth y DU yng nghamau Pwyllgor ac Adrodd Tŷ'r Cyffredin mewn cysylltiad â'r diwygiadau i gymal 32 (adnabod ac olrhain anifeiliaid) ac Atodlen 5 (darpariaeth sy'n ymwneud â Chymru). Ceir pryderon sydd heb eu datrys o hyd ynghylch pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol i wneud is-ddeddfwriaeth o ran adnabod ac olrhain anifeiliaid (cymal 32) a rheoleiddio cynnyrch organig (cymalau 36 a 37) ac oherwydd y diffyg gofynion priodol i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru o dan amgylchiadau penodol. Bydd gwaith i leddfu'r pryderon hyn yn mynd rhagddo yn ystod taith y Bil trwy Senedd y DU ac os gellir cytuno ar ddiwygiadau, caiff Memorandwm

Cydsyniad Deddfwriaethol ategol ei ddwyn ymlaen pan fydd yr amser yn briodol.

33. Mae Llywodraeth Cymru'n fodlon o hyd â'r darpariaethau ynghylch Cytundeb y WTO ar Amaethyddiaeth gyda golwg ar y cytundeb a wnaed gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ar arfer y pwerau gwneud rheoliadau hynny. Ar gais Llywodraeth Cymru, gwnaeth yr Is-Ysgrifennydd Seneddol ymrwymiad ar lawr Tŷ'r Cyffredin i weithio gyda'r Gweinyddiaethau Datganoledig wrth arfer y pwerau hyn.
34. Caiff unrhyw newidiadau eraill i'r Bil ar ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi y bydd angen Memoranda arnynt, er enghraifft er mwyn ymateb i bwyntiau a godwyd gan Bwyllgor craffu yn Senedd Cymru, eu gosod ger bron Senedd Cymru yn ôl y gofyn. Caiff argymhelliad terfynol mewn cysylltiad â chydsyniad y Senedd ei roi ar ôl i'r holl ddiwygiadau i'r Bil gael eu gwneud.

### **Goblygiadau Ariannol**

35. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol i Lywodraeth Cymru na Senedd Cymru o ganlyniad i gymryd y pwerau hyn yn y Bil hwn.

### **Casgliad**

36. Mae'r Memorandwm ategol hwn yn disgrifio'r newidiadau perthnasol a wnaed i'r Bil ers cyflwyno'r gofyn am gydsyniad Senedd Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n gefnogol ar y cyfan i'r Bil fel y mae wedi'i ddrafftio. Ond dylid nodi na ellir rhoi argymhelliad pendant i'r Senedd roi ei chydsyniad i'r Bil tan y bydd yn nes at ddiwedd ei daith trwy Dŷ'r Arglwyddi. Pe ceid diwygiadau yn y dyfodol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, yna caiff rhagor o Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol Ategol eu cyflwyno ger bron y Senedd yn ôl y gofyn, gydag argymhelliad gan Lywodraeth Cymru ynghylch cydsyniad y Senedd ar yr adeg briodol.

**Lesley Griffiths AS**  
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**  
**Mehefin 2020**

## Atodiad

### MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATEGOL: BIL AMAETHYDDIAETH – RHESTR WEDI'I DIWEDDARU O'R DARPARIAETHAU SY'N CYNNWYS PWERAU I WEINIDOGION CYMRU WNEUD IS- DDEDDFWRIAETH FEL Y'U DIWYGIWYD YNG NGHAMAU PWYLLGOR AC ADRODD TY'R CYFFREDIN.

<u>Darpariaeth y Bil</u>	<u>Disgrifiad o'r pŵer</u>	<u>Gweithdrefn ddeddfwriaethol</u>
31 (gwrteithiau)	Mae cymal 31(4) yn diwygio adran 74A o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 ac yn caniatáu i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru (a'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban ac Adran yng Ngogledd Iwerddon mewn perthynas â rhannau eraill o'r DU) i bennu trefn asesu, monitro a gorfodi ar gyfer sicrhau bod gwrteithiau'n cydymffurfio â gofynion cyfansoddiad, cynnwys a swyddogaeth ac ar gyfer lliniaru risgiau eraill i iechyd pobl, anifeiliaid neu blanhigion neu'r amgylchedd a gyflwynir gan wrteithiau.	Mae'r rheoliadau cyntaf a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 74A(1A) i (1E) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau dilynol a wneir gan Weinidogion Cymru, o dan adran 74A(1A)(b) (sy'n rhoi swyddogaethau i awdurdod cyhoeddus sy'n ymwneud â goruchwyllo a rheoleiddio'r farchnad) neu (1E)(a)(i) neu (ii) (diwygio a diddymu cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â gwrteithiau) hefyd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol (cymal 31(5), sy'n diwygio adran 84 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970). Fel arall, mae'r weithdrefn penderfyniad negyddol yn gymwys (gweler adran 84(2), Deddf Amaethyddiaeth 1970).
33 (ardoll cig coch)	Pwerau i Weinidogion Cymru (gan weithredu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol a/neu Weinidogion yr Alban) ffurfio cynllun i wneud darpariaeth i symiau o ardoll cig coch a gesglir gan y corff ardollau ar gyfer un wlad ym Mhrydain gael eu talu i'r corff ardollau ar gyfer gwlad arall o'r fath.	Dim gweithdrefn
36 a 37 (cynhyrchion organig)	Pwerau i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardystio cynhyrchion organig a rheolaethau mewforio ac allforio (os ac i'r graddau y byddai darpariaeth a wneir gan y rheoliadau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan y Cynulliad hwnnw (gan anwybyddu unrhyw ofyniad am gydsyniad unrhyw berson) (cymal 37(1)(c)).	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol lle — (a) mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud o dan adran 36(1) ac yn cynnwys darpariaeth y cyfeirir ati yn adran 36(3), neu (b) mae'r rheoliadau'n cael eu gwneud o dan is-adran (1), (5) neu (7) o adran 36



		a dyma'r rheoliadau cyntaf i gael eu gwneud o dan yr is-adran honno gan yr awdurdod sy'n eu gwneud. Fel arall, mae rheoliadau o dan gymal 36 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod adran 47(5) yn gymwys, felly'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol).
44 (hyd y ddarpariaeth mewn perthynas â Chymru)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed mewn perthynas â'r adran hon.	Mae rheoliadau o dan y cymal hwn sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan y cymal hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(1) (darpariaeth ganlyniadol ac ati)	Caiff yr awdurdod priodol, drwy reoliadau, wneud darpariaeth atodol, gysylltiedig neu ganlyniadol yng nghyswllt unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf hon. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt— (i) cymal 43 ac Atodlen 5, (ii) cymal 44, a (iii) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.	Mae rheoliadau o dan adran 50(1) sy'n cynnwys darpariaeth sy'n addasu deddfwriaeth sylfaenol (gyda neu heb ddarpariaeth arall) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol. Mae rheoliadau eraill o dan is-adran (1) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.
50(5) (darpariaeth ganlyniadol ac ati)	Caiff yr awdurdod priodol drwy reoliadau wneud darpariaeth drosiannol, ddarfodol neu arbed yng nghyswllt dod ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf i rym. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod priodol, ar gyfer darpariaeth yng nghyswllt— (i) cymal 43 ac Atodlen 5, (ii) cymal 44, a (iii) cymal 49 ac Atodlen 7 i'r graddau y maent yn gymwys mewn perthynas â Chymru.	Dim gweithdrefn
53(3) (cychwyn)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir gan offeryn statudol i benodi— (a) i'r graddau y mae'n ymwneud â Chymru— (i) paragraffau 10 i 18 o Atodlen 3, a (ii) adran 34 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r paragraffau hynny, (b) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 5, ac adran 43 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny, a (c) Rhannau 2 a 4 o Atodlen 7, ac adran 49 i'r graddau y mae'n ymwneud â'r Rhannau hynny.	Dim gweithdrefn
Atodlen 3, para 6(7)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau a wneir mewn offeryn statudol i ddiwygio adran 84 o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn-	Gweithdrefn negyddol

	a) cynnwys person yn y diffiniad o "awdurdod proffesiynol" neu ddileu person ohono; b) adlewyrchu newidiadau yn enw neu drefniadaeth fewnol unrhyw gorff a grybwyllir yn y diffiniad hwnnw.	
Atodlen 3, para 7	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau wneud darpariaeth i denant daliad amaethyddol atgyfeirio ar gyfer cymrodeddu y ceisiadau a wneir gan y tenant am gydsyniad y landlord neu i amrywio telerau	Gweithdrefn negyddol
Atodlen 3, para 17	Mae paragraff 17 yn diwygio adran 39(8) o Ddeddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn perthynas â Chymru, wneud rheoliadau sy'n pennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw person yn addas i fod yn denant daliad.	Gweithdrefn negyddol
Atodlen 5, para 2(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru addasu deddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun taliad sylfaenol	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 3(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddarparu ar gyfer parhau â'r cynllun taliad sylfaenol y tu hwnt i 2020, gan gynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru bennu terfyn uchaf i daliadau uniongyrchol ar gyfer Cymru	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 4(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chyllido, rheoli a monitro'r polisi amaethyddol cyffredin ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 5(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud â chymorth ar gyfer datblygu gwledig ac is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth honno.	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 8(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion newid y modd y mae darpariaethau deddfwriaeth o'r fath yn gweithredu, i'r graddau y maent yn cael effaith mewn perthynas â Chymru mewn cysylltiad ag amodau eithriadol yn y farchnad sy'n destun datganiad o dan baragraff 6 o Atodlen 5 (datganiad ynghylch amodau eithriadol yn y farchnad).	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 8(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, addasu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir sy'n ymwneud ag ymyrryd yn y farchnad gyhoeddus neu gymorth ar gyfer storio preifat at ddibenion penodedig	Gweithdrefn penderfyniad negyddol (oni bai bod cymal 47(5) yn gymwys, ac os felly, y weithdrefn penderfyniad cadarnhaol)
Atodlen 5, para 9(2)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bersonau sy'n rhan o gadwyn gyflenwi bwyd-amaeth neu sydd â chysylltiad agos â chadwyn o'r fath ddarparu gwybodaeth am faterion sy'n gysylltiedig ag	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol

	unrhyw un o weithgareddau'r person sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi os yw'r gweithgareddau yng Nghymru.	
Atodlen 5, para 14(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ar gyfer gorfodi gofyniad a osodir o dan baragraff 9(1) neu (2) o Atodlen 5 (cadwyni cyflenwi bwyd-amaeth: gofyniad i ddarparu gwybodaeth)	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 15(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru drwy reoliadau, mewn perthynas â chynhyrchion sydd o fewn sector penodedig ac sy'n cael eu marchnata yng Nghymru, wneud darpariaethau ynghylch y safonau y mae'n rhaid i'r cynhyrchion hynny gydymffurfio â hwy	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 16(3)	Pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio paragraffau 15 ac 16 at y diben neu mewn perthynas â'r diben hwnnw— (a) ychwanegu neu dynnu cynnyrch amaethyddol o baragraff 16(1); (b) newid y disgrifiad o gynnyrch amaethyddol ym mharagraff 16(1).	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol
Atodlen 5, para 17(1)	Pwerau i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth ynghylch dosbarthu, adnabod a chyflwyno carcasau buchol, moch a defaid gan ladd-dai yng Nghymru	Gweithdrefn penderfyniad cadarnhaol